

Hawdd ei Ddeall

# Creu Senedd i Gymru

---

Rydyn ni ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl  
Dywedwch wrthyn ni erbyn 6 Ebrill 2018



Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn o ddogfen ymgynghori Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru 'Creu Senedd i Gymru'. Chwefror 2018



# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **glas trwm** a dywedir beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd unrhyw un o'r geiriau yn cael ei ddefnyddio eto yn y llyfryn bydd yn cael ei ysgrifennu mewn **glas cyffredin**. Os gwelwch chi eiriau mewn **glas cyffredin**, gallwch edrych beth maen nhw'n feddwl mewn **Geiriau anodd ar dudalen 36**.



Pan fydd y ddogfen yn dweud 'ni', mae hyn yn meddwl **Cynulliad Cenedlaethol Cymru**.

I gael y ddogfen hon mewn diwyg gwahanol cysylltwch â:



Tîm Newidiadau Cyfansoddiadol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Stryd Pierhead  
Caerdydd, CF99 1NA



Ffôn: 0300 200 6565



E-bost: [ComisiwnyCynulliad.Ymgynghori@cynulliad.cymru](mailto:ComisiwnyCynulliad.Ymgynghori@cynulliad.cymru)



Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols.

---

<b>Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon</b>	<b>2</b>
<b>Ynglŷn â Chynulliad Cenedlaethol Cymru</b>	<b>4</b>
<b>Ynglŷn â'r ddogfen hon</b>	<b>6</b>
<b>Sut i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl</b>	<b>8</b>
<b>Newidiadau y gallen ni eu gwneud i'r Cynulliad Cenedlaethol</b>	<b>9</b>
Y Nifer o Aelodau'r Cynulliad	9
Y ffordd mae Aelodau'r Cynulliad yn cael eu hethol	12
Cael Cynulliad amrywiaethol	24
Pwy ddylai gael pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad?	26
Pwy ddylai gael bod yn Aelod o'r Cynulliad?	32
Rhedeg etholiadau	33
Gwneud newidiadau i'r ffordd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei redeg	35
<b>Geiriau anodd</b>	<b>36</b>

---

# Ynglŷn â Chynulliad Cenedlaethol Cymru



Cychwynnodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999.



Doedd gennym ni ddim hawl i wneud deddfau yr adeg honno. Rydyn ni'n gallu nawr.



Dros y blynyddoedd rydyn ni wedi bod yn gwneud mwy o bethau, felly mae ein rôl erbyn hyn yn debyg i seneddau eraill.

Erbyn hyn rydyn ni'n gwneud 4 peth:



1. Siarad ar ran pobl Cymru. Rydyn ni'n gwneud hyn trwy ein 60 **Aelod o'r Cynulliad**.

Mae **Aelodau'r Cynulliad** yn bobl sy'n cael eu hethol i'r Cynulliad Cenedlaethol.



2. Gwneud deddfau.



3. Penderfynu faint fydd rhai o'r trethi yng Nghymru.



4. Ceisio gwneud yn siŵr bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith da.



# Ynglŷn â'r ddogfen hon

Yn Ebrill 2018 bydd deddf newydd sy'n cael ei galw'n **Ddeddf Cymru 2017** yn cychwyn.

Bydd Ddeddf Cymru 2017 yn rhoi mwy o rym i'r Cynulliad Cenedlaethol. Bydd gennym ni'r grym i:



- benderfynu'r ffordd orau i ethol pobl i'r Cynulliad Cenedlaethol



- penderfynu'r ffordd orau i drefnu a rhedeg y Cynulliad Cenedlaethol.

Rydyn ni'n meddwl bod hyn yn gyfle i feddwl a oes angen newidiadau i:



- wneud yn siŵr bod y Cynulliad Cenedlaethol yn gallu gwneud ei waith mor dda â phosibl



- cael mwy o bobl i gymryd rhan yn ein gwaith – gan gynnwys pobl ifanc



- gwneud yn siŵr ein bod yn cael ein trefnu a'n rhedeg yn y ffordd orau.



Rydyn ni'n mynd i newid enw'r Cynulliad Cenedlaethol i **Senedd Cymru**. Rydyn ni wedi gofyn i bobl ynglŷn â hyn yn barod.



Rydyn ni wedi gwneud llawer o waith yn chwilio i mewn i'r newidiadau y gallen ni wneud.



Mae arnon ni eisiau gwybod nawr beth rydych chi'n ei feddwl ynghylch ein syniadau ar gyfer newidiadau eraill.

# Sut i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl



Darllenwch yr wybodaeth yn y ddogfen hon. Yna atebwch y cwestiynau yn y ffurflen ymateb.



Does dim rhaid i chi ateb yr holl gwestiynau os nad ydych chi eisiau.

Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen ymateb gallwch chi ei yrru i ni trwy:




- ei e-bostio at:

[ComisiwnyCynulliad.Ymgynghori@cynulliad.cymru](mailto:ComisiwnyCynulliad.Ymgynghori@cynulliad.cymru)

- ei bostio at:

Rhadbost,  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru






# Newidiadau y gallen ni eu gwneud i'r Cynulliad Cenedlaethol

## Y nifer o Aelodau'r Cynulliad



Mae [Aelodau'r Cynulliad](#) yn ceisio gwneud yn siŵr bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith da. Maen nhw'n chwilio i mewn i bolisiau a deddfau newydd. Ac maen nhw'n edrych sut mae arian yn cael ei wario. Mae hyn yn waith pwysig.



Rydyn ni'n fach iawn o gymharu â seneddau eraill yn y DU ac o amgylch y byd.



Ar hyn o bryd mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cynnwys 60 [Aelod o'r Cynulliad](#). Roedd adroddiad yn 2003 yn dweud bod hyn yn rhy fach.



Roedd yr adroddiad yn dweud petai'r Cynulliad yn cael mwy o bŵer byddai angen 80 [Aelod o'r Cynulliad](#). Mae gennym ni lawer mwy o bŵer nawr ond rydyn ni dal heb gael mwy o [Aelodau'r Cynulliad](#).



Rydyn ni wedi gwneud llawer o waith i weld faint o [Aelodau o'r Cynulliad](#) sydd eu hangen arnon ni.



Fe ofynnwn ni i rai arbenigwyr a oedden nhw'n meddwl bod digon o [Aelodau o'r Cynulliad](#).



Roedd yr arbenigwyr yn gweld nad yw 60 [Aelod yn ddigon](#). Mae gan [Aelodau o'r Cynulliad](#) waith anodd. Mae ganddyn nhw lawer i'w wneud a dim digon o amser i wneud y gwaith hwnnw.

## Syniadau ar gyfer newid nifer yr Aelodau Cynulliad



Roedd yr arbenigwyr yn dweud y dylai'r Cynulliad gael rhywle rhwng 80 a 90 o [Aelodau'r Cynulliad](#). Maen nhw'n meddwl y gallai'r nifer hwn o [Aelodau'r Cynulliad](#) gynrychioli pobl Cymru'n well.



Roedd yr arbenigwyr yn dweud y byddai'r nifer hwn o [Aelodau'r Cynulliad](#) yn gallu chwilio i mewn i bolisiau, deddfau a gwario yn well. Mae'r arbenigwyr yn dweud bod hyn yn bwysig iawn i bobl Cymru.



A byddai [Aelodau o'r Cynulliad](#) yn gallu canolbwyntio ar lai o bethau. Roedd yr arbenigwyr yn dweud bod hyn yn meddwl y gallen nhw wneud mwy o wahaniaeth.

## Faint fyddai hyn yn ei gostio?



Petai gennym ni 80 **Aelod o'r Cynulliad**, byddai angen 20 **Aelod** yn fwy. Byddai 20 **Aelod** yn fwy yn costio tua £6.6 miliwn y flwyddyn.



Petai gennym ni 90 **Aelod o'r Cynulliad**, byddai angen 30 **Aelod** yn fwy. Byddai 30 **Aelod Cynulliad** yn fwy yn costio tua £9.6 miliwn y flwyddyn.



Byddai mwy o gost hefyd ar gyfer rhai pethau fel swyddfeydd newydd a newidiadau i'n hystafell gyfarfod. Dim ond unwaith y byddai'n rhaid i ni dalu'r costau hyn.



Rydyn ni'n meddwl y byddai'r pethau hynny ar gyfer 20 **Aelod Cynulliad** yn fwy yn costio tua £2.4 miliwn.



Rydyn ni'n meddwl y byddai'r pethau hynny ar gyfer 30 **Aelod Cynulliad** yn fwy yn costio tua £3.3 miliwn.

**£15 biliwn y flwyddyn**



Mae'n swnio fel llawer o arian. Ond dim ond ychydig o'r arian sydd gan Gymru i'w wario bob blwyddyn fyddai hyn – mae gan Gymru tua £15 biliwn o arian i'w wario bob blwyddyn.

# Y ffordd y mae Aelodau'r Cynulliad yn cael eu hethol

## Y system bleidleisio




Pan fyddwch chi'n pleidleisio mewn etholiad byddwch yn cael penderfynu pwy rydych chi am gael i'ch cynrychioli yn y Senedd.



Ar hyn o bryd mae ein 60 **Aelod o'r Cynulliad** yn cael eu hethol trwy system sy'n cael ei galw'n **System Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg**.

Mae'r **System Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg** yn ffordd o drefnu'r ffordd y mae senedd yn cael ei greu o aelodau sydd wedi'u hethol. Mae llawer o bobl yn dweud **system yr MMP** gan fod hynny'n haws.




Gyda **system yr MMP** byddwch yn cael 2 pleidlais. Mae eich pleidlais cyntaf am y person rydych chi ei eisiau i gynrychioli eich **etholaeth**.

Eich **etholaeth** yw eich ardal leol. Mae 40 o **etholaethau** yng Nghymru. Er enghraifft, mae Caerffili yn **etholaeth** yn Ne Cymru a Wrecsam yn **etholaeth** yng Ngogledd Cymru.



Y person sydd â'r mwyaf o bleidleisiau sy'n ennill. Mae 40 o Aelodau'r Cynulliad yn cael eu hethol yn y ffordd hon.



Mae'r ail bleidlais rydych chi'n ei chael ar gyfer **plaid wleidyddol** i gynrychioli eich **rhanbarth**.

Mae **plaid wleidyddol** yn grŵp sy'n cytuno sut i wneud bywyd yn well ar gyfer pobl. Maen nhw'n dod at ei gilydd ac mae ganddyn nhw ymgeisydd ar gyfer etholiad. Yng Nghymru mae **pleidiau gwleidyddol** yn cynnwys:

- Ceidwadwyr Cymru
- Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- Llafur Cymru
- Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (UKIP)
- Plaid Cymru



Mae 5 o **ranbarthau** yng Nghymru:

- Gogledd Cymru
- Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gorllewin De Cymru
- Canol De Cymru
- Dwyrain De Cymru.



Yn y bleidlais hon mae **pleidiau gwleidyddol** yn ennill seddau yn y Cynulliad. Maen nhw'n dewis pa bobl o'u plaid sy'n cael y seddau.



Mae 20 Aelod o'r Cynulliad yn cael eu hethol y ffordd hon – 4 o bob **rhanbarth**.



Mae **system yr MMP** yn rhoi 60 Aelod o'r Cynulliad i ni. Mae pob **etholaeth** yng Nghymru yn dewis 1 person. Ac mae pob **rhanbarth** yng Nghymru yn dewis 4 o bobl.



Ond os ydyn ni eisiau mwy o Aelodau'r Cynulliad mae angen newid y system hon. Mae hyn oherwydd bod y system sydd gennym ni ar hyn o bryd wedi'i chreu i ethol 60 Aelod o'r Cynulliad.


## Syniadau ar gyfer newid y system pleidleisio



Fe ofynnwn ni i rai arbenigwyr am wahanol systemau pleidleisio.



Mae pethau da a phethau drwg ynghylch bob un o'r gwahanol systemau pleidleisio.



Mae'r arbenigwyr yn meddwl bod 3 dewis a allai weithio. Y 3 dewis yw:

## 1. Gallen ni ddefnyddio Pleidlais Drosglwyddadwy Sengl (STV).



### Pleidlais Drosglwyddadwy Sengl (STV).

Yn y system hon mae pleidleiswyr yn gosod yr ymgeiswyr yn nhrefn y rhai maen nhw'n eu hoffi orau. Er enghraifft, rhif 1 fyddai eu hoff ymgeisydd. Rhif 2 fyddai eu hail hoff ymgeisydd.

Byddai pob **etholaeth** yn dewis mwy nag 1 person i'w chynrychioli.

## Pethau da



- Bydden ni'n gallu ethol 80-90 Aelod o'r Cynulliad



- Byddai pleidleiswyr yn cael y mwyaf o ddewis.



- Mae Llywodraeth Cymru eisiau defnyddio'r system hon mewn **etholiadau lleol**. Os bydd hyn yn digwydd bydd gan y 2 etholiad yr un system. Bydd hyn yn helpu i wneud pleidleisio yn haws i'w ddeall.

Mae **etholiadau lleol** yn digwydd pan fyddwch chi'n pleidleisio am y bobl rydych chi am gael i redeg eich cyngor lleol.

## Cydraddoldeb



- Byddai gan bob **Aelod o'r Cynulliad** rym cyfartal.



- Byddai gwell balans rhwng y **pleidiau gwleidyddol** yn y Cynulliad a'r **pleidiau gwleidyddol** y mae'r bobl wedi pleidleisio drostyn nhw.



- Mae rhai pethau y gallen ni wneud i wneud yn siŵr bod **Aelodau'r Cynulliad** yn **amrywiaethol**.

Mae **amrywiaethol** yn meddwl cael pobl o wahanol grwpiau. Er enghraifft, dynion a menywod; pobl ifainc a phobl hŷn; pobl o wahanol gefndiroedd.



## Pethau gwael



- O fewn y system hon gall **Aelodau o'r Cynulliad** ddewis treulio mwy o amser yn helpu'r bobl yn eu hardal. Ond gallai hyn feddwl nad oes ganddyn nhw gymaint o amser i wneud yn siŵr bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith da nac yn gwneud deddfau ar gyfer Cymru.



- Byddai angen i ni newid yr **etholaethau** sydd gennym ni yng Nghymru.



- Bydd y system hon yn ddieithr i bobl sydd wedi arfer pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Gallai hyn ei gwneud hi'n fwy anodd deall.

## 2. Gallen ni ddefnyddio **Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Hyblyg**.



### **Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Hyblyg.**

Yn y system hon mae pleidleiswyr yn dewis o restr o **bleidiau gwleidyddol** ac ymgeiswyr.

Mae **pleidiau** yn dewis pa drefn y mae eu hymgeiswyr yn cael eu rhestru. Gall pleidleiswyr ddewis pleidleisio am drefn y blaid. Neu gall pleidleiswyr bleidleisio am eu hoff ymgeisydd.

Os oes digon o bleidleiswyr yn dewis yr un ymgeisydd, mae'r ymgeisydd hwnnw yn mynd i ben uchaf y rhestr.

Os nad oes digon o bleidleiswyr yn dewis yr un ymgeisydd, yna mae'r ymgeiswyr yn aros yn y drefn sy'n cael ei dewis gan y **blaid**.

Mae hyn yn cael ei ddefnyddio i ddewis pa ymgeiswyr sy'n cael y seddau.



### **Pethau da**

- Gallen ni ethol 80-90 **Aelod o'r Cynulliad**.
- Byddai **pleidiau gwleidyddol** a phleidleiswyr yn cael dweud eu barn ynghylch y rhai oedd yn cael eu hethol.





- Byddai gwell balans rhwng y **pleidiau gwleidyddol** yn y Cynulliad a'r **pleidiau gwleidyddol** y mae'r bobl wedi pleidleisio drostyn nhw.

## Cydraddoldeb



- Byddai gan bob **Aelod o'r Cynulliad** rym cyfartal.



- Gallen ni wneud pethau i wneud yn siŵr bod y Cynulliad yn **amrywiaethol**.



- Mae'r system hon yn debyg i'r un sy'n cael ei defnyddio mewn etholiadau i bleidleisio dros eich **Aelod o'r Senedd Ewropeaidd**.

## Pethau gwael



- Bydd arnon ni angen newid yr **etholaethau**.



- Byddai'r system hon yn ddieithr i'r bobl sydd wedi arfer pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Gallai hyn ei gwneud hi'n fwy anodd deall.

### 3. Gallen ni gadw'r **system MMP**



Gallen ni gadw'r system bleidleisio hon. Bydden ni'n newid nifer **Aelodau'r Cynulliad** sy'n cael eu hethol gan bob **rhanbarth**.



Byddai pob **rhanbarth** yn ethol 8 ymgeisydd yn lle 4.

Byddai hynny'n meddwl y byddai 40 ymgeisydd yn cael eu hethol ym mhleidlais y **rhanbarth**.

### **Pethau da**



- Dim ond y newid lleiaf posibl y byddai hyn ei angen.



- Byddai pobl yn cael rhyw gymaint o ddewis a rheolaeth dros pwy sy'n mynd i mewn i'r Cynulliad.



- Mae'r bleidlais **ranbarthol** yn cael ei chyfrif mewn ffordd arbennig. Mae hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod gan y Cynulliad Cenedlaethol yr un balans o **pleidiau gwleidyddol** ag y mae'r bobl wedi pleidleisio drostyn nhw.



- Mae **pleidiau gwleidyddol** yn rheoli pwy sy'n cael y seddau **rhanbarthol**. Gallai hyn ei gwneud hi'n haws iddyn nhw fod yn **amrywiaethol**.

## Pethau gwael

- Allen ni ddim ethol mwy nag 80 **Aelod o'r Cynulliad** gyda'r system hon.



- Mae **pleidiau gwleidyddol** yn rheoli pwy sy'n cael y seddau **rhanbarthol**. Mae hyn yn mynd â'r dewis i ffwrdd oddi wrth y pleidleiswyr.

## Cydraddoldeb



- Mae rhai **Aelodau o'r Cynulliad** yn cynrychioli **etholaeth**. Ac mae rhai **Aelodau o'r Cynulliad** yn cynrychioli **rhanbarth**. Oherwydd hyn gallai rhai pobl feddwl nad ydyn nhw'n gyfartal.

## Newid yr etholaethau



Os byddwn ni'n newid y system bleidleisio efallai y bydd angen i ni newid yr **etholaethau**. Mae 2 ddewis ar gyfer hyn.

### Dewis 1



Gallen ni gael 20 o **etholaethau**. Bydden ni'n eu seilio ar y 40 **etholaeth** sydd gennym ni'n barod.



Gallen ni gael 90 Aelod o'r Cynulliad petaen ni'n gwneud hyn.

Byddai gan bob **etholaeth** nifer tebyg o **Aelodau o'r Cynulliad** i'w cynrychioli.



Bob hyn a hyn byddai angen i ni edrych ble byddai'r **etholaethau** yn dechrau ac yn diweddu. Byddai hyn yn cymryd peth amser ac arian.

## Dewis 2



Gallen ni gael 17 o **etholaethau**. Bydden ni'n seilio hyn ar y 22 ardal Awdurdod Lleol sydd gennym ni yng Nghymru.



Ni fyddai arnon ni angen edrych ble fyddai'r **etholaethau** newydd yn dechrau ac yn diweddu. Oherwydd, bob hyn a hyn, mae hyn yn digwydd yn barod ar gyfer ardaloedd yr awdurdodau lleol.



Ond byddai hyn yn meddwl bod gan rai **etholaethau** fwy o **Aelodau o'r Cynulliad** i'w cynrychioli. Oherwydd mae mwy o bobl yn byw mewn rhai **etholaethau** nag mewn **etholaethau** eraill.

## Cael Cynulliad amrywiaethol



Dywedodd yr arbenigwyr oedd yn edrych faint o **Aelodau o'r Cynulliad** y dylai fod ar gael y byddai'n well cael Cynulliad **amrywiaethol** hefyd.



Dywedon nhw y dylai **pleidiau gwleidyddol** feddwl pa mor **amrywiaethol** yw eu hymgeiswyr.



Maen nhw'n meddwl y dylai **pleidiau gwleidyddol** gael yr un faint o ddynion a menywod yn ymgeisio ar gyfer etholiad. Mae nhw eisiau iddyn nhw feddwl am bethau eraill hefyd fel oed ac anabledd.



## Rhannu swydd



Mae gwaith Aelod o'r Cynulliad yn cymryd llawer o amser. Gallai hyn rwystro rhai pobl rhag ymgeisio ar gyfer etholiad.



Gallai **rhannu swydd** helpu mwy o bobl ymgeisio ar gyfer etholiad fel:

- pobl anabl
- gofalwyr



**Rhannu swydd** yw pan fydd 2 o bobl yn rhannu gwaith 1 rôl.



Byddai'n rhaid i ymgeiswyr sydd am **rannu swydd** egluro i bleidleiswyr sut y bydden nhw'n trefnu hyn. Y pleidleiswyr fyddai'n penderfynu pa un a fyddan nhw'n cael eu hethol ai peidio.



Byddai'r rhai sy'n **rhannu swydd** yn cael eu trin fel 1 person. Felly fydd hi ddim yn costio mwy i 2 o bobl **rannu swydd** nag y byddai i 1 person fod yn **Aelod o'r Cynulliad**.

## Pwy ddylai gael pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad?



Ar hyn o bryd y bobl sy'n pleidleisio yn [etholiadau'r llywodraeth](#) leol sy'n cael pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol. Rydyn ni eisiau gwybod a ddylai hyn aros yn un fath.



Mae hyn yn haws i bleidleiswyr. Ac mae'n haws i'w drefnu.

### Oed pleidleisio



Ar hyn o bryd mae'n rhaid i chi fod yn 18 neu dros hynny i bleidleisio yng Nghymru.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mae Llywodraeth Cymru yn meddwl newid yr oed y gall pobl bleidleisio mewn [etholiadau llywodraeth](#) leol i 16.



Gofynnnon ni i bobl 16 ac 17 mlwydd oed a ddylai'r oed y gall pobl bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad gael ei leihau i 16. Dywedodd dros hanner y bobl y gofynnnon ni iddyn nhw y dylai'r oed gael ei newid. Dywedodd dros chwarter na ddylai gael ei newid. Doedd y gweddill ddim yn siŵr.



Gofynnnon ni i'r arbenigwyr pa mor hen y dylech chi fod i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Dywedon nhw y byddai lleihau yr oed pleidleisio i 16 yn beth da. Maen nhw'n meddwl y bydd yn helpu pobl ifainc i gael diddordeb mewn gwleidyddiaeth.



Dywedon nhw pe byddai pobl yn pleidleisio pan fyddan nhw'n ifanc, maen nhw'n fwy tebygol o bleidleisio fel oedolion.



Dywedon nhw hefyd bod pobl 16 ac 17 yn deall gwleidyddiaeth yr un mor dda â phobl 18 i 21.



Does dim llawer o gefnogaeth i leihau'r oed pleidleisio yn y DU. Ond mae mudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifainc wedi dweud bod pobl ifainc yn cefnogi hynny.



Os ydyn ni am newid oed pleidleisio mae angen i ni feddwl am:



- Y gost



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod bod oed pleidleisio wedi newid



- Gwneud newidiadau i'r gofrestr bleidleisio. Mae'r gofrestr bleidleisio yn rhestr o bobl sy'n gallu pleidleisio



- Sut rydyn ni'n trefnu'r ffordd mae pobl yn pleidleisio.

## Pobl sydd ddim yn dod o'r DU



Mae pobl sy'n byw yng Nghymru yn cael pleidleisio mewn etholiadau lleol ac etholiadau'r Cynulliad os ydyn nhw:



- wedi cael eu geni yn y DU



- yn dod o'r **Gymanwlad**

Mae'r **Gymanwlad** yn grŵp o wledydd roedd y DU yn arfer eu llywodraethu. Fel Jamaica ac India.



- yn dod o'r **Undeb Ewropeaidd**

Mae'r **Undeb Ewropeaidd** yn grŵp o wledydd y mae eu llywodraethau yn gweithio gyda'i gilydd. Yn aml mae'n cael ei alw'n **UE**. Yn 2016 pleidleisiodd pobl y DU i adael yr **UE**.



Yn 2017 gofynnodd Llywodraeth Cymru pwy ddylai gael pleidleisio mewn **etholiadau lleol** yng Nghymru.



Gofynnnon nhw a ddylai pobl o'r **UE** ddal i gael pleidleisio ar ôl i ni adael yr **UE**.



A gofynnon nhw a ddylai pawb sy'n byw yn gyfreithlon yng Nghymru, ble bynnag y cawson nhw eu geni, gael pleidleisio.



Mae Llywodraeth Cymru yn awr wedi dweud ei bod yn mynd i newid y gyfraith fel bod pawb sy'n byw yng Nghymru yn gyfreithlon yn gallu pleidleisio mewn **etholiadau lleol**. Fydd dim gwahaniaeth ble cawson nhw eu geni – cyn belled â'u bod yn byw yng Nghymru'n gyfreithlon.



Fe hoffen ni wybod ydych chi'n meddwl y dylen ni wneud yr un peth ar gyfer etholiadau'r Cynulliad.

## Carcharorion



Nid yw'r rhan fwyaf o garcharorion yn cael pleidleisio mewn etholiad.

Mae Llywodraeth y DU yn meddwl newid hyn i adael i garcharorion bleidleisio os ydyn nhw:



- wedi cael caniatâd i adael y carchar am hyn a hyn o amser



- yn byw gartref dan reolau llym. Er enghraifft, mae'n rhaid iddyn nhw fod gartref erbyn 7pm. Maen nhw'n cadw golwg arnyn nhw trwy roi tag ar eu ffêr.



Maen nhw hefyd yn meddwl tybed ddylen nhw adael i garcharorion fydd yn y carchar am lai na 12 mis bleidleisio.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn edrych ar hyn hefyd. Dywedon nhw efallai y bydd carcharorion oedd yn byw yng Nghymru, ac a fydd yn cael eu rhyddhau cyn yr etholiad sy'n dod ar ôl yr un y maen nhw'n pleidleisio ynddo, yn gallu cael hawl i bleidleisio mewn [etholiadau lleol](#).



Fe hoffen ni wybod a ydych chi'n meddwl y dylen ni wneud yr un peth gydag etholiadau'r Cynulliad.

# Pwy ddylai gael bod yn Aelod o'r Cynulliad?

Dydy pawb ddim yn cael bod yn [Aelod o'r Cynulliad](#). Dydy rhai pobl ddim yn cael pleidleisio oherwydd eu gwaith. Er enghraifft:



- ASau
- Barnwyr



Os yw'r bobl hyn am fod yn [Aelod o'r Cynulliad](#) mae'n rhaid iddyn nhw adael eu swydd cyn iddyn nhw ymgeisio mewn etholiad.



Mae hyn oherwydd y gall eu gwaith effeithio ar y dewisiadau maen nhw'n ei wneud fel [Aelod o'r Cynulliad](#).



Mae grŵp o [Aelodau'r Cynulliad](#) wedi dweud y buasai'n well petai pobl ond yn gorfod gadael eu swydd os ydyn nhw'n ennill yr etholiad.



Onid mae rhai swyddi y byddai angen i bobl eu gadael cyn ymgeisio mewn etholiad. Mae hyn oherwydd y gallai rôl eu swydd roi mantais annheg iddyn nhw mewn etholiad.



Gallai'r gyfraith gael ei gwneud yn gliriach i'w gwneud hi'n haws i bobl.



# Rhedeg etholiadau


## Gwario arian



Mae'n rhaid i **bleidiau gwleidyddol** ddilyn rheolau ynghylch faint o arian y gallan nhw ei wario mewn etholiadau.



Y **Comisiwn Etholiadol** yw'r sefydliad sy'n gwneud yn siŵr bod **pleidiau gwleidyddol** yn dilyn y rheolau hyn. Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod etholiadau'n cael eu rhedeg yn iawn.



Mae'r **Comisiwn Etholiadol** yn meddwl na ddylai'r arian y mae'n ei gostio i gyfieithu pethau rhwng y Gymraeg a'r Saesneg gael ei gynnwys yn hyn. Gallai hyn helpu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod etholiadau.



Mae'r **Comisiwn Etholiadol** yn meddwl na ddylai arian sy'n cael ei wario am fod gan berson anabledd gael ei gynnwys yn hyn. Gallai hyn helpu mwy o bobl anabl i ymgeisio mewn etholiad neu gymryd rhan mewn ymgyrchu ar ran **plaid wleidyddol**.

## Y gyfraith



Yn 2016 dywedodd **Comisiwn y Gyfraith** y dylen ni ddod â'r holl ddeddfau sy'n ymwneud ag etholiadau at ei gilydd.



Mae **Comisiwn y Gyfraith** yn edrych ar y gyfraith ac yn awgrymu newidiadau i'w wneud yn well. Mae'n gorff annibynnol.



Byddai hyn yn gwneud y ddeddf yn fwy clir a hawdd ei deall



Nid yw Llywodraeth y DU wedi dweud beth fyddan nhw'n wneud am hyn eto.



Petaen ni'n newid y gyfraith ynghylch etholiadau, gallai helpu i wneud yn siŵr y gallwn ni wneud y newidiadau a awgrymir gan **Comisiwn y Gyfraith** yn y dyfodol.

# Gwneud newidiadau i'r ffordd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei redeg



Bydd **Deddf Cymru 2017** yn rhoi'r grym i ni newid peth o'r ddeddf sy'n dweud pa ffordd y dylen ni weithio.



Rydyn ni'n meddwl tybed allai gwneud y newidiadau helpu'r Cynulliad gael ei redeg yn y ffordd orau.



Gallai newidiadau posibl gynnwys newid y nifer o bobl mewn rhai rolau gwaith.



Fe hoffen ni newid faint o amser sydd gennym ni ar ôl etholiad cyn y gallwn ni gynnal ein cyfarfod cyntaf.



Bydden ni hefyd yn hoffi mwy o amser ar ôl etholiadau ar gyfer siarad a gwneud dewisiadau ynghylch pa bobl sy'n cael swyddi arbennig.

# Geiriau anodd

## Aelod o'r Cynulliad

Mae Aelodau'r Cynulliad yn bobl sy'n cael eu hethol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

## Amrywiaethol

Mae amrywiaethol yn meddwl cael pobl o wahanol grwpiau. Er enghraifft, dynion a menywod, pobl ifainc a phobl hŷn.

## Comisiwn Etholiadol

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gorff annibynnol sy'n gwneud yn siŵr bod pleidiau gwleidyddol yn dilyn y rheolau. Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod etholiadau'n cael eu rhedeg yn iawn.

## Comisiwn y Gyfraith

Mae Comisiwn y Gyfraith yn edrych ar y gyfraith ac yn awgrymu newidiadau i'w wneud yn well. Mae'n gorff annibynnol.

## Cymanwlad

Mae'r Gymanwlad yn grŵp o wledydd roedd y DU yn arfer eu llywodraethu. Fel Jamaica ac India.

## Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Hyblyg

Yn y system hon mae pleidleiswyr yn dewis o restr o bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr.

Mae pleidiau yn dewis pa drefn y mae eu hymgeiswyr yn cael eu rhestru. Gall pleidleiswyr ddewis pleidleisio am drefn y blaid. Neu gall pleidleiswyr bleidleisio am eu hoff ymgeisydd.

Os oes digon o bleidleiswyr yn dewis yr un ymgeisydd, mae'r ymgeisydd hwnnw yn mynd i ben uchaf y rhestr.

Os nad oes digon o bleidleiswyr yn dewis yr un ymgeisydd, yna mae'r ymgeiswyr yn aros yn y drefn sy'n cael ei dewis gan y blaid.

## Etholaeth

Eich etholaeth yw eich ardal leol. Mae 40 o etholaethau yng Nghymru. Er enghraifft, mae Caerffili yn etholaeth yn Ne Cymru a Wreccsam yn etholaeth yng Ngogledd Cymru.

## Etholiadau lleol

Mae etholiadau lleol yn digwydd pan fyddwch chi'n pleidleisio am y bobl rydych chi am gael i redeg eich cyngor lleol.

## Plaid wleidyddol

Mae plaid wleidyddol yn grŵp sy'n cytuno sut i wneud bywyd yn well ar gyfer pobl. Maen nhw'n dod at ei gilydd ac mae ganddyn nhw ymgeisydd ar gyfer etholiad. Yng Nghymru mae pleidiau gwleidyddol yn cynnwys:

- Ceidwadwyr Cymru
- Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- Llafur Cymru
- Plaid Cymru
- Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (UKIP)

## Pleidlais Drosglwyddadwy Sengl (STV)

Yn y system hon mae pleidleiswyr yn gosod yr ymgeiswyr yn nhrefn y rhai maen nhw'n eu hoffi orau. Er enghraifft, rhif 1 fyddai eu hoff ymgeisydd. Rhif 2 fyddai eu hail hoff ymgeisydd.

Byddai pob etholaeth yn dewis mwy nag 1 person i'w cynrychioli.

## Rhanbarthau

Mae 5 o ranbarthau yng Nghymru:

- Gogledd Cymru
- Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gorllewin De Cymru
- Canol De Cymru
- Dwyrain De Cymru.

## Rhannu swydd

Rhannu swydd yw pan fydd 2 o bobl yn rhannu gwaith 1 rôl.

## System Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg

Mae'r System Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg yn ffordd o drefnu'r ffordd y mae senedd yn cael ei greu o aelodau sydd wedi'u hethol. Mae llawer o bobl yn dweud system yr MMP gan fod hynny'n haws.

Gyda system yr MMP byddwch yn cael 2 bleidlais. Mae eich pleidlais cyntaf am y person sydd arnoch chi ei eisiau i gynrychioli eich etholaeth.

Mae'r ail bleidlais rydych chi'n ei gael ar gyfer plaid wleidyddol i gynrychioli eich rhanbarth.

## Undeb Ewropeaidd

Mae'r Undeb Ewropeaidd yn grŵp o wledydd y mae eu llywodraethau yn gweithio gyda'i gilydd. Yn aml mae'n cael ei alw'n UE. Yn 2016 pleidleisiodd pobl y DU i adael yr UE.